



Amcanion
Chamatu

ADRAN PUMP

Amcanion a Chamau ar gyfer Nodweddion Arbennig

Bioamrywiaeth

Mae tirwedd amrywiol yn AHNE Bryniau Clwyd yn cefnogi amrywiaeth cyfoethog o fywyd gwyllt a chynefinoedd. Mae cynefin bywyd gwyllt yn cael ei benderfnu gan dopograffi, presenoldeb dwr, pridd, hinsawdd a defnyddiau amaethyddol ac arall. Yn yr AHNE mae llystyfiant lled-naturiol yn cynnwys gweundir grugog, glaswelltir carreg galch gwlybtir a choedlannau.

Amcan Cynlluniau Gweithrdu Bioamrywiaeth Sir Ddinbych a Sir y Fflint, a gyhoeddwyd yn 2003, yw cynnal a gwella bioamrywiaeth yn eu siroedd, dwyn i ben ddirywiad cynefinoedd a rhywogaethau a chynorthwyo gyda'u hadfer. Mae'r Cynlluniau hyn yn beirianwaith i weithredu Camau Bioamrywiaeth y DG yn lleol, yn troi blaenoriaethau bywyd gwyllt cenedlaethol yn gamau lleol. Maent yn adnabod cynefinoedd blaenoriaeth dan fygythiad neu sy'n dirywio ac yn argymhell y camau cadwraeth sydd eu hangen. Mae'r AHNE yn cynnwys llawer o gynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaethol. Bydd rheoli'r rhain yn cael ei arwain gan argymhellion yn y Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod Cynllun Rheoli'r AHNE yn cyfrannu at gyflwyno targedau CGB lleol a rhai'r DG a rhestr adran 74 Deddf CROW

Glaswelltir carreg galch a phalmant

Mae glaswelltir carreg galch a brigiadau yn bodoli trwy'r AHNE yn fwyaf penodoli'r gogledd o gwmpas Bryniau Prestatyn a Dyserth ynghyd ag i'r de-ddwyrain o amgylch Eryrys a Llanarmon yn Ial. Mae'r brigiadau yn ffurfio nodweddion naturiol amlwg, y bryniau gyda wynebau sgarpig, creigiau a phalmantau carreg galch yn darparu rhai o olygfeydd gwychaf yr ardal.

Mae'r ardaloedd hyn yn gysylltiedig gyda phriddoedd cyfoethog sy'n draenio'n rhwydd ac yn cefnogi cymunedau planhigion cyfoethog. Mae'r math hwn o gynefin yn cyfrannu yn fawr at fioamrywiaeth yr AHNE. Mae natur agored y math hwn o dirwedd yn draddodiadol wedi ei gynnal gan anifeiliaid yn pori. Mae newidiadau mewn arferion amaethyddol wedi arwain at fygythiad tan-bori a thresmasiad prysgwydd ar y llethrau serthaf ac mewn rhai achosion dirwyiad a cholli rhywogaethau planhigion. Mae hyn yn arbennig o wir ar Fryniau Prestatyn. Mae gwelliannau amaethyddol a gor-bori wedi cael effaith mewn rhai ardaloedd.

Er bod peth glaswelltir carreg galch yn cael amddiffyniad statudol fel SddGA neu AGA yn enwedig yn Loggerheads a Bryn Alyn, mae nifer o safleoedd llai yn yr AHNE sy'n bwysig yn lleol ac yn dibynnu ar dirfeddianwyr i'w cynnal.

Yn draddodiadol, mae'r ardaloedd hyn wedi eu cysylltu gyda chwarela ac echdynnu mwynau gyda rhai chwareli mwy yn dal i weithio, a chyfoeth o archaeoleg diwydiannol yn gysylltiedig gyda chwareli plwm y 19eg a'r 20fed ganrif.

Arwyddocad CGBLL

Mae hwn yn gynefin gyda blaenoriaeth DG ac yn nodwedd o'r AHNE.

Amcanion

- GCPA1** Cynnal maint presennol glaswelltir calchaid a phalmantau yn yr AHNE.
- GCPA2** Dwyn holl laswelltir calchaid a phalmant ym meddiant y Sir o fewn cynllun rheoli erbyn 2006 a rhoi cefnogaeth i berchnogion eraill gyda chynlluniau tebyg.
- GCPA3** Sicrhau nad oes colled net ardaloedd pwysig glaswelltir calchaid oherwydd gweithgareddau chwarela.



Camau

Mae hwn yn gynefin blaenoriaeth DG ac yn nodwedd o'r AHNE.

- GCPC1** Sicrhau Cytundebau Rheoli Adran 15 ar gyfer Bryn Prestatyn a Pharc Gwledig Loggerheads gyda CCGC erbyn 2005.
- GCPC2** Canfod faint o Laswelltir Calch a phalmant sydd mewn rhaglenni rheoli gweithredol erbyn 2006.
- GCPC3** Cael statws Gwarchodfa Natur Leol ar gyfer Bryn Prestatyn erbyn 2005.
- GCPC4** Monitro maint glaswelltir calchaid a phalmant yn yr AHNE bob 5 mlynedd trwy gyfrwng arolygon Cynefin Cyfnod 1.

Coedlannau Brasddeiliog

Mae coedlannau yn elfen hanfodol o'r dirwedd a bioamrywiaeth Bryniau Clwyd. Mae coedlannau brasddeiliog yn draddodiadol wedi darparu ffynhonnell bren leol a thanwydd ar gyfer defnydd domestig a diwydiannol lleol. Mae llawer o'r coedlannau brasddeiliog presennol yn cynrychioli cysylltiad gyda'r dirwedd fel yr ymddangosodd yn dilyn yr Oes Iâ ddiwethaf ac yn cefnogi amrywiaeth o fflora ac anifeiliaid. Ystyrir bod llawer o'r coedlannau yn hynafol.

Gyda datblygiad y rhwydwaith rheilffordd ganol y 19eg ganrif, dirywiodd y ddibyniaeth ar adnoddau pren lleol. Mae hyn, ynghyd â gostyngiad yn y gweithlu amaethyddol, wedi arwain at ostyngiad yn y nifer o goedlannau sy'n cael eu rheoli yn weithredol.

Ar ôl sefydlu'r Comisiwn Coedwigaeth ym 1919, plannwyd ardaloedd eang o ucheldiroedd llai cynhyrchiol yn amaethyddol gyda choed conifer, a oedd yn tyfu'n gyflym: yn bennaf fel adwaith i brinder pren yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Plannwyd planhigfeydd mawrion yn ardal Bryniau Clwyd ar ôl yr Ail Ryfel Byd ac maent nawr yn gwneud cyfraniad sylweddol i amrywiaeth tirwedd yr ardal.


Gyda chynnydd mewn cymorth grant a chydabod rôl bwysig coedlannau mewn cadwraeth natur, rheolaeth adloniadol ac economi gwledig, mae'n hanfodol bod cyrff llywodraethol a pherchnogion coedlannau yn gweithio gyda'i gilydd i gynnal coedlannau nid y unig fel ffynhonnell bren ond hefyd oherwydd eu gwerth bywyd gwyllt.



Arwyddocad CGBLL

Coedlannau cymysg onnen, ucheldirol, coedlannau derw a choedlannau gwlyb – oll yn gynefinoedd blaenoriaeth y DG. Coedlan gymysg iseldirol a choedlan ucheldirol bedw yn flaenoriaeth Cymreig.

CADWRAETH NATUR NATURE CONSERVATION






Amcanion

- CBA1** Cynnal maint coedlannau brasddeiliog presennol yn yr AHNE.
- CBA2** Cynnal ac adfer coedlannau brasddeiliog mewn cyflwr ffafriol trwy weithredu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth ar gyfer Coedlannau Onnen Cymysg Ucheldirol, coedlannau derw ucheldirol a choedlannau gwlyb.
- CBA3** Datblygu coedlannau ym meddiant y Sir fel modelau arferion gorau o ran rheoli coedlannau brasddeiliog.
- CBA4** Archwilio dull o gynyddu cymhellion ariannol i ffermwyr i roi'r gorau i reoli coedlannau yn amaethyddol.
- CBA5** Datblygu rhaglen o gyfranogiad cymunedol wrth reoli coedlannau er mwyn eu cael fel asedion diwylliannol, cymdeithasol ac ariannol mewn perthynas â choedlannau cyhoeddus a Chomin Adran 9.
- CBA6** Cefnogi Coed Cymru wrth barhau i gyflwyno cefnogaeth i ffermwyr, gan hybu arferion gorau o ran arferion rheoli coedlannau brasddeiliog a datblygu marchnad ar gyfer pren caled lleol.

Camau

- CBC1** Sicrhau bod holl goedlannau brasddeiliog ym meddiant y Sir yn y cynllun Grantiau Coedlannau erbyn 2005.
- CBC2** Sicrhau Atodiad Lleoliadol yn y Cynllun Grantiau Coedlan gan CC ar gyfer coedlannau fferm yn yr AHNE i ddelio gyda chymbwysedd ariannu erbyn 2005.
- CBC3** Monitro ardaloedd coedlannau yn y Cynllun Grantiau Coedlan a Chynlluniau Coedlannau Cynhenid bob pum mlynedd.
- CBC4** Cytuno rhaglen reoli ar gyfer Coedlan Bishops gyda Chymdeithas Amgylcheddol Prestatyn erbyn 2005.
- CBC5** Sampl-fonitro Cynlluniau Grantiau Coedlannau ar draws Bryniau Clwyd i sicrhau bod amcanion bioamrywiaeth yn cael eu cyflawni.
- CBC6** Cadarnhau cynllun gweithredu gyda'r Ymddiriedolaeth Coedlannau ar gyfer eu daliadau yn yr AHNE erbyn 2004.


COEDLAN WOODLAND





RHOSDIR, GLASWELLTIR A THIROEDD GWLYB

HEATHLAND, GRASSLAND & WETLANDS



Dyffrynnoedd Afon

Mae dwy brif afon yn yr AHNE – y Chwiler a'r Alun. Mae'r dyffrynnoedd yn cynnwys cymysgedd cyfoethog o goedlannau, gwlybtiroedd a chynefinoedd afon cysylltiedig. Mae'r ddwy afon wedi gweld dychweliad dyfrgwn sy'n dangos glendid y dwr. Mae draenio caeau cyfagos hefyd wedi digwydd yn y 30 blwyddyn ddiwethaf.

Arwyddocad LBAP

Mae cynefinoedd llinellol yn gynefinoedd blaenoriaeth bioamrywiaeth. Mae nifer o rywogaethau blaenoriaeth megis dyfrgwn a llygod y dwr yn defnyddio cyrsiau dwr..

Amcanion

- DAA1** Cynnal dyffrynnoedd afon mewn cyflwr ffafriol ar gyfer cynefinoedd blaenoriaeth rhywogaethau.
- DAA2** Annog a cheisio cyllid trwy CDS, Cynllun Grantiau Gwella Cefn Gwlad a Thir Gofal am reolaeth cynefinoedd glannau afon
- DAA3** Canfod nifer rhywogaethau dangosydd allweddol megis y dyfrgi a'r llygoden ddwr er mwyn canfod cyflwr cynefin.
- DAA4** Gweithio mewn partneriaeth gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i ganfod atebion i achosion o ddyfrgwn yn marw ar y ffyrdd, lle gwelir bod hyn yn fater pwysig.
- DAA5** Hybu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr afonydd yn yr AHNE fel cynefin i ddyfrgwn a llygod y dwr.

Camau

- DAC1** Ymgymryd ag un project rheoli cynefin glannau afon ar Afon Alun neu Chwiler bob blwyddyn trwy Dir Gofal, CDS neu Gynllun Grantiau Gwella Cefn Gwlad.
- DAC2** Ymgymryd â monitro blynyddol poblogaethau dyfrgwn a llygod y dwr ar Afon Alun a Chwiler
- DAC3** Adeiladu twll dyfrgwn ym Mharc Gwledig Loggerheads.



Gweundir grugog

Mae gweundir grugog yn gynefin pwysig yn y Bryniau. Yn cynnwys grug, llus ac eithin, mae ystod penodol o adar yno yn cynnwys grugiar, clec y garreg, clochdar yr eithin a chornicyll y waun. Mae hefyd yn arbennig o bwysig yn y dirwedd yn rhan ganolog y bryniau, sy'n canolbwyntio ar Barc Gwledig Moel Famau.

Cydnabyddir gweundir grugog fel cynefin o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r cynefin hwn yng Nghymru wedi dirywio gan fwy na 50% o ganlyniad, yn bennaf, i ailhawlio a fforesteiddio ers 1947 ac mae dan bwysau parhaus gan redyn a gor-bori. Gyda'r dirywiad hwn – sydd hefyd i'w weld yn yr AHNE – bu gostyngiad hefyd ym mhoblogaeth llawer o adar yr ucheldiroedd, gyda'r grugiar ddu, grugiar coch a'r gwalch bach mewn sefyllfa enbydus yng Nghymru.



Mae gweundir iseldirol yn bennaf wedi ei gyfyngu i Foel Findeg lle mae diffyg pori yn arwain at ddatblygu coedlan prysgwydd.

O fewn rhai ardaloedd yn yr AHNE mae grug yn cynrychioli adnoddau pori pwysig i ddefaid ac mewn rhai mannau mae gor-bori wedi arwain at golled lloches a chynnydd mewn rhedyn.

Gyda llawer o'r ucheldiroedd grugog yn dir comin, mae rheoli niferoedd pori a rheoli rhedyn yn anodd. Er mwyn ceisio cydbwysedd rhwng gwerth amgylcheddol a phwysau amaethyddol a phori, rhaid cychwyn trefn gynnal a chadw a rheoli hirdymor. Heb gynllun rheoli ystyrlon ar gyfer gweundir grugog yr AHNE, bydd gwerth bywyd gwyllt a thirwedd y mannau gwyllt hyn yn cael eu colli am byth.

Arwyddocad CGBLL

Mae gweundir ucheldirol ac iseldirol yn flaenoriaeth cynefin DG sydd wedi ei gynrychioli yn dda yn yr AHNE. Fodd bynnag mae llawer o'r ardal mewn cyflwr aeddfed neu ddirywiol oherwydd diffyg rheoli ac yn dirywio yn lleol o bosibl wrth gefnogi poblogaethau adar ucheldirol.



Amcanion

- GGA1** Cynnal maint presennol gweundir yn yr AHNE (monitro arolwg ucheldirol CCGC)..
- GGA2** Datblygu model o arferion rheoli da ym Mharc Gwledig Moel Famau.
- GGA3** Cynnal ac adfer cynefin gweundir ffafriol. (Monitro o'r nifer o gynlluniau / ardal sy'n dod o fewn Tir Gofal))
- GGA4** Datblygu partneriaeth gyda RSPB a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru mewn perthynas â'r Project Adfer Grugiar Ddu.
- GGA5** Ymgymryd â chwrs hyfforddi ar reoli treftadaeth diwylliannol a naturiol gweundiroedd wedi ei anelu at gymunedau lleol a thirfeddianwyr.
- GGA6** Sicrhau cyllid trwy HLF i gyflwyno rhaglen Grug a 'r Caerau ym Mryniau Clwyd.

Camau

- GGC1** Fel partner llawn Bwrdd Partneriaeth Project Grug a 'r Caerau, cyflwyno cais i HLF am broject Grug a Bryngaeau erbyn diwedd Ebrill 2005.
- GGC2** Canfod arferion amaethyddol presennol ar yr ucheldiroedd trwy gyfrwng project Grug a 'r Caerau.
- GGC3** Trwy gyfrwng Project Grug a 'r Caerau, canfod faint o weundir grugog sydd mewn rhaglenni rheoli gweithredol erbyn 2006.
- GGC4** Gweithio gyda Choleg Amaeth Llysfasi i ddarparu cyrsiau hyfforddi mewn sgiliau cefn gwlad fel rhan o'r cwrs Diploma Cenedlaethol erbyn 2006/7
- GGC5** Ymgymryd ag un hectar o reoli grug a rheoli ymyl coedlannau ym Mharc Gwledig Moel Famau.
- GGC6** Darparu cyllid CDS i annog porwyr i ymgymryd â gwaith rheoli grug ym Moel y Parc a Phenycloddiau.
- GGC7** Monitro poblogaethau Grugiar Ddu ac adar ucheldirol eraill bob blwyddyn ym Moel Famau, Penycloddiau a Moel y Parc.
- GGC8** Cael Cytundeb Tir Gofal ar Foel Famau a Moel y Parc erbyn 2006.

Cynlluniau Cysylltiedig

Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Ddinbych
Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir y Fflint
Grug a 'r Caerau
Farming for the Future – LICC
Coedlannau i Gymru





YR AMGYLCHFYD HANESYDDOL

Mae gan yr AHNE gyfoeth o olion archaeolegol a hanesyddol sy'n dyddio o'r cyfnod cyn-hanesiol cynnar hyd at yr Ail Ryfel Byd. Mae safleoedd yn amrywio o Fryngeyrydd anferth yr Oes Haearn i farciau cnydau llai amlwg a darganfyddiadau yn yr ardaloedd is.

Mae llawer o'r safleoedd archaeolegol yn Henebion Rhestredig ac yn cael eu hamddiffyn gan Cadw – Henebion Hanesyddol Cymru. Mae llawer o nodweddion hanesyddol eraill, megis cerrig terfyn, ffynhonnau pentref a cerrig milltir nad ydynt yn cael eu gwarchod ac yn llawer mwy agored i niwed.

Mae llawer o'r safleoedd archaeolegol ym Mryniau Clwyd yn elfennau pwysig yn y dirwedd ehangach: tystiolaeth cloddio a chwaryddau yn y gorffennol, aneddiadau a chladdedigaethau yn ffurfio cefndir cyfarwydd i'n bywyd heddiw.

Bryngaerau, Henebion Rhestredig ac Archaeoleg

Mae Bryniau Clwyd yn cynnwys safleoedd lle bu gweithgaredd dynol yn y gorffennol yn dyddio'n ôl i o leiaf 30,000CC. Yn wir, mae'r ffordd y mae'r dirwedd yn edrych heddiw yn deillio o sut mae pobl wedi rheoli eu hamgylchfyd ar gyfer ffermio, cynhaliaeth, echdynnu, cludiant ac adloniant dros y 5000 mlynedd ddiwethaf. Mae databas o'r holl archaeoleg hysbys, y Cofnod Safleoedd a Henebion, yn bodoli. Fe'i cynhelir gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd Powys sy'n ychwanegu at y cofnod hwn trwy'r amser. Mae rhai safleoedd wedi eu rhestru fel rhai o bwysigrwydd cenedlaethol gan Cadw. Ym Mryniau Clwyd yn benodol mae'r rhain yn cynnwys cyfres o chwech bryngaer yn dyddio o tua 700CC ar y brif grib, ynghyd â nifer o domenni claddu yn dyddio o tua 1500CC. Mae rhan o Fryniau Clwyd, gan gynnwys nifer o'r bryngaerau, wedi ei adnabod ym 1998 fel Tirwedd Hanesyddol eithriadol ac mae rhannau o barciau a gerddi hanesyddol hefyd wedi eu nodi yng Nghofrestr 1995, o fewn Bryniau Clwyd. Mae'r bryngaerau cenedlaethol bwysig wedi eu hadnabod fel elfen nodweddiadol bwysig yn nhrwedd hanesyddol Bryniau Clwyd mewn ymgynghoriad cyhoeddus a gafwyd. Mae pwysau ar yr henebion hyn yn dod gan adloniant, amaethyddiaeth ac anifeiliaid yn cloddio, ynghyd â diffyg gwybodaeth o ran sut yr oedd yr aneddiadau pwysig hyn yn gweithredu o fewn y dirwedd.

Amcanion

- HRA1** Asesu cyflwr y 6 bryngaer yn y Bryniau, adnabod achosion problemau erydiad a defnyddio'r Project Grug a'r Caerau i gasglu'r wybodaeth hon erbyn 2005.
- HRA2** Sefydlu gwaelodlin o wybodaeth ar gyflwr y bryngaerau gan ddefnyddio'r wybodaeth o raglen arolwg 5 mlynedd Cadw erbyn 2006.
- HRA3** Cychwyn ar raglen i gynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y safleoedd bryngaer trwy broiect Grug a'r Caerau a fydd yn asesu gwahanol ofynion cynudlleidfa a chyfrwng a chynhyrchu deunydd dehongli erbyn 2008.
- HRA4** Sefydlu rhaglen astudiaeth ar gyfer y bryngaerau dan broiect Grug a'r Caerau i ddarparu gwybodaeth i fwydo i raglen hybu ymwybyddiaeth erbyn 2008.
- HRA5** Annog perchnogion Parciau a Gerddi Hanesyddol ym Mryniau Clwyd i gynnal ac adfer nodweddion parc presennol fel a nodwyd yn y Gofrestr ac annog plannu coed parc newydd.
- HRA6** Ymgorffori gwybodaeth a gasglwyd fel rhan o Gofnod Safleoedd a Henebion o fewn proses reoli barhaus Bryniau Clwyd, sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei diweddarau bob 6 mis.


Camau

- HRC1** Defnyddio proses cais Cronfa Loteri Grug a'r Caerau (2004-8) i weithredu gwaith arolygu, gwaith atgyweirio erydiad a strategaethau dehongli ar gyfer y bryngaerau ym Mryniau Clwyd.
- HRC2** Ffurfioli cyfnewid gwybodaeth Cofnod Safleoedd a Henebion bob 6 mis.
- HRC3** Archwilio cyfleon i gael cymorth grant i helpu gyda phrojectau adfer Parciau a Gerddi erbyn 2008



TIRLUN HANESYDDOL A CHOFADEILADAU HYNAFOL RHESTREDIG

HISTORIC LANDSCAPES & SCHEDULED ANCIENT MONUMENTS



- HRC4** Gwneud cysylltiad gyda pherchnogion Parciau a Gerddi hanesyddol ym Mryniau Clwyd a sefydlu o leiaf 1 project bob blwyddyn. Canfod cyllid grant posibl ac ymgymryd â gwaith gwella megis plannu coed unigol.
- HRC5** Datblygu cynllun rheoli ar gyfer y bryngaerau ym Mryniau Clwyd trwy gyfrwng Grug a'r Caerau erbyn 2008.

Nodweddion hanesyddol bychain yn Nhirwedd Bryniau Clwyd

Mae tirwedd ac, yn enwedig, pentrefi Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd yn cynnwys nifer o nodweddion bychain sydd, gyda'i gilydd, yn gwella'r ardal a rhoi cymeriad iddi. Mae rhai yn parhau i gyflawni swyddogaeth ddefnyddiol, megis blychau ffôn coch K6, blychau postio a 'lleiniau gleision' grŵn y pentref a thir comin. Mae eraill megis mynegbyst, nad ydynt bellach yn cael eu cynnal gan yr Awdurdod Prifffyrdd, a cherrig milltir sydd wedi eu disodli gan arwyddion pellter modern, yn derbyn gofal gan y gymuned leol mewn rhai mannau, megis yn y Cwm, Waen a Thremeirchion. Mae ffynhonnau wedi bod yn bwysig iawn fel ffynhonnell dwr i gymunedau, ynghyd â meddu ar gysylltiadau ysbrydol pwysig. Mae enghraifft dda o ffynnon sydd wedi ei hadfer gan drigolion lleol fel nodwedd bwysig yn y pentref i'w gweld yng Ngwaenysgor. Mae cafnau dwr anifeiliaid megis y rhai yn y Cwm ac Afonwen hefyd yn ychwanegu at amrywiaeth ein haneddiadau.

Mae'r nodweddion hyn yn aml yn cael eu cymryd yn ganiataol ond byddai ein tirweddau yn dlotach hebddynt. Mae'n bwysig gofalu am a gwarchod y nodweddion hyn trwy gadw eu rol swyddogaethol lle'n briodol ac annog cyrff cyhoeddus a phobl leol i gymryd meddiant ohonynt.



Amcanion

- NHA1** Adnabod a mapio nodweddion ym mhob cymuned ar ddatbas sylfaenol gyda disgrifiad a sylwadau ar gyflwr erbyn 2007.
- NHA2** Cysylltu'r wybodaeth hon gyda'r cofnod safleoedd a henebion lleol a'i defnyddio i gychwyn rhaglen o ofal a chadwraeth. Casglu gwybodaeth ar gyfer un cymuned fesul blwyddyn.
- NHA3** Hybu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y nodweddion hyn yn yr amgylcheddau cynllunio a phrifffyrdd trwy ddarparu sesiynau hyfforddi i staff proffesiynol – un sesiwn y flwyddyn trwy gydol oes y cynllun.
- NHA4** Annog cymunedau i 'fabwysiadu' y nodweddion hyn a gweithredu fel eu pencampwyr, hybu ymwybyddiaeth o fewn cynghorau cymuned a grwpiau ieuencid erbyn 2007.

Camau

- NHC1** Sefydlu fformat datbas ar gyfer y cofnodi'r nodweddion hyn erbyn 2004
- NHC2** Casglu data o'r cymunedau erbyn 2007.
- NHC3** Cynnal sesiynau DPP (Datblygiad Proffesiynol Parhaus) ar gyfer Awdurdodau Cynllunio a Phrifffyrdd Lleol erbyn 2006.
- NHC4** Sefydlu Pencampwyr Cymunedol erbyn 2007.





Ffiniau

Mae nodweddion terfyn ym Bryniau Clwyd yn bennaf yn adlewyrchu amgylchiadau a geoleg lleol. Yn yr ardaloedd carreg galch mae'r ffiniau yn bennaf yn rhai carreg, mewn ardaloedd ucheldiroedd a amgaewyd yn fwy diweddar mae'r ffiniau yn bennaf yn ffensys, ac yn yr ardaloedd amaethyddol ar y lletherau is yn y dwyrain a'r gorllewin mae gwrychoedd yn ffurfio ffiniau. Ffin lywodraethol yn y Bryniau yw'r mur carreg, o garreg leol, sy'n rhedeg ar hyd ardal ganolog y grib Moel Famau i Moel Arthur. Mae hwn yn ffurfio'r ffin hanesyddol rhwng Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Daeth Sir y Fflint i fodolaeth fel rhan o Statud Rhuddlan a gyhoeddwyd ym 1284 gan Edward 1 tra daeth Sir Ddinbych i fodolaeth fel rhan o'r Ddeddf Uno rhwng 1536 a 1543, a ddisodlodd Statud Rhuddlan. Bydd y mur terfyn hwn yn sicr yn dyddio o'r 15eg ganrif ac yn fwyaf tebygol o'r 13eg. Mae'r mur terfyn ei hunan yn defnyddio rhagfuriau dwy fryngaer yr oes haearn i nodi ei linell. Mae'r ffin yma'n pwysleisio natur ffiniol Bryniau Clwyd – am ganrifoedd mae'r ardal wedi gweithredu fel ffin rhwng gwahanol ddiwylliannau gyda chynghreiriau yn symud ar draws y Bryniau.



Amcanion

- FA1** Adnabod ffiniau a fyddai'n elwa o waith cadwraeth a thargedu cynlluniau megis Cronfa Datblygiad Strategol a Chynllun Grantiau Cefn Gwlad i gael gwelliannau erbyn 2008.
- FA2** Defnyddio ffermydd Tir Gofal i gael gwelliannau i ffiniau, yn furiau carreg a gwrychoedd. Cysylltu gyda swyddogion Tir Gofal a thargedu ffermydd i annog ceisiadau a fydd yn gwella'r nodweddion terfyn hyn.
- FA3** Codi sylfaen sgiliau'r gweithlu lleol i gynyddu'r nifer o bobl a fedr ymgymryd â'r gwaith cadwraeth ac atgyweirio angenrheidiol.
- FA4** Adnabod ffermydd y Sir yn yr AHNE i weithredu fel modelau ar gyfer y gwaith hwn a gwaith cadwraeth arall, a gweithio gyda'r tenant i gael gwelliannau mesuradwy i ffiniau erbyn 2008.
- FA5** Cysylltu gyda chwareli lleol o ran gwaith atgyweirio muriau carreg trwy annog rhoddi deunyddiau, archwilio'r posibilrwydd o noddi neu gynllun 'mabwysiadu mur'.

Camau

- FC1** Casglu gwybodaeth ar gyflwr presennol ffiniau ledled yr AHNE erbyn 2007.
- FC2** Targedu cynllun Grantiau Cefn Gwlad a CDS i hwyluso gwelliannau ffiniau, 2 gynllun y flwyddyn.
- FC3** Cysylltu gyda swyddogion Tir Gofal i helpu targedu cymorth grant i ardaloedd/ffiniau a nodwyd fel rhai sydd angen gofal a chadwraeth wrth i wybodaeth o arolwg ffiniau ddod i'r amlwg.

- FC4** Gweithio gyda Choleg Amaethyddol Llysfasi i ddarparu cyrsiau mewn Sgiliau Cefn Gwlad fel rhan o'u cwrs Diploma Cenedlaethol erbyn 2005/6
- FC5** Parhau i gynnig dyddiau hyfforddi ar gyfer gwirfoddolwyr Sir Ddinbych a Sir y Fflint i blygu gwrychoedd ac adeiladu muriau carreg. 2 yr un y flwyddyn.

Cynlluniau cysylltiedig

Cofrestr Tirweddau Diddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru
 Grug a'r Caerau
 Strategaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych
 Mynediad i'r Awyr Agored yn AHNE Bryniau Clwyd
 Strategaeth Ddehongliadol Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych

